**Cyfarfod:** Cabinet

**Dyddiad:** 20 Chwefror 2024

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet dros Gyllid

**Pwnc:** Cyllideb 2024/25

**Swyddog Cyswllt:** Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid

---

**CYLLIDEB 2024/25**

**Y Penderfyniad a geisir**

**Argymell i'r Cyngor (yn ei gyfarfod ar 7 Mawrth 2024) y dylid:**

1. **Sefydlu cyllideb o £330,590,040 ar gyfer 2024/25 i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o £232,092,110 a £98,497,930 o incwm o'r Dreth Cyngor (sy'n gynnydd o 9.54%).**

2. **Sefydlu rhaglen gyfalaf o £85,224,800 yn 2024/25 i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yn Atodiad 4 i'r adroddiad.**

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Rhaid i'r Cyngor osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2024/25.

1.2 Gosodir y gyllideb hon mewn cyfnod ble mae awdurdodau lleol Cymru yn wynebu heriau ariannol, yn arbennig yng nghyd-destun chwyddiant cyffredinol wedi cyrraedd lefelau yn 2022/23 a 2023/24 nas gwelwyd ei debyg ers degawdau, ac mae effaith hynny wedi gweithio ei ffordd drwodd i gyllideb 2024/25.

1.3 Mae Cyngor Gwynedd wedi derbyn cynnydd grant Llywodraeth o 2.0% ar gyfer 2024/25, sy'n cyfateb i gynnydd gwerth £4.1m mewn ariannu allanol.

1.4 Erbyn 2024/25, byddai angen cynyddu ein gwariant o £22.4m er mwyn "sefyll yn llonydd" (mae manylion yn rhan 3 isod). Mae hyn yn cynnwys £5.1m i gwrdd â phwysau ar gyllidebau'r gwasanaethau (mae manylion o'r 'bidiau' unigol yn Atodiad 2).

1.5 Gwelir yn yr adroddiad hwn fod pwysau galw ar wasanaethau yn ogystal â phwysau chwyddiant yn dangos fod rhaid ystyried cyfuniad o gynnydd Treth Cyngor a chyflwyno rhaglen newydd o arbedion a thoriadau os am osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2024/25. Mae cyllideb 2024/25 yn ceisio gwarchod y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu i bobl Gwynedd, ac yn argymell cynnydd 9.54% yn y Dreth Cyngor er mwyn cyflawni'r amcan hwnnw eleni. Hyd yn oed wedyn, byddwn angen chwilio am arbedion ychwanegol a defnyddio cronfeydd i osod cyllideb gytbwys, ac mae rhagolygon yn awgrymu bydd pwysau pellach wrth anelu i osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2025/26.

1.6 Mae cynlluniau arbedion a thoriadau yn destun adroddiad ar wahân ar raglen y cyfarfod yma.

1.7 Mae'r arbedion sydd wedi cael eu hadnabod wedi bod yn destun ymgynghori gydag aelodau'r Cyngor mewn cyfres o weithdai yn Hydref 2023. Mae'r gyllideb ddrafft wedi cael ei hystyried gan mwyafrif aelodau'r Cyngor mewn sesiwn briffio sefyllfa ariannol a gynhaliwyd ar 16 Ionawr 2024, a wedi ei graffu gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 8 Chwefror. Swyddogaeth y Cabinet yw argymell cyllideb cytbwys a phriodol i gyfarfod y Cyngor ar 7 Mawrth ar gyfer 2024/25.

1.8 Mae cyllideb 2024/25 yn cynnwys cyfran sylweddol o'r arbedion sydd wedi llithro o flynyddoedd blaenorol, rhai gafodd eu hadnabod wrth osod cyllideb 2023/24 yn ogystal ag arbedion newydd.

1.9 Eleni rydym yn cynnig sefydlu rhaglen gyfalaf gwerth £85.2m yn 2024/25, fel sydd wedi'i osod allan yn Atodiad 4.

1.10 Mater i'r Cyngor Llawn yw ystyried y gyllideb a gosod y Dreth Cyngor ar gyfer 2024/25 ar sail y materion a nodir yn yr adroddiad dilynol. Mae'r adroddiad manwl yma'n nodi'r ffactorau sydd yn dylanwadu ar y gyllideb refeniw arfaethedig ar gyfer 2024/25, ac yn amlinellu'r prif newidiadau ers 2023/24.

## 2. GRANT LLYWODRAETH CYMRU

2.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r setliad dangosol i ariannu awdurdodau lleol ar gyfer 2024/25 fel a ganlyn:

| **Grant Cynnal Refeniw 2023/24 – 2024/25** | | **Cyfanswm Awdurdodau Cymru £** | **Cyngor Gwynedd £** |
|---|---|---|---|
| Grant y Llywodraeth 2023/24 | | 5,110,643,128 | 227,541,286 |
| Grant y Llywodraeth 2024/25 | | 5,689,688,839 | 232,092,112 |
| | Cynnydd £ | 403,245,272 | 4,550,826 |
| | Cynnydd % | 3.1% | 2.0% |

Ni fydd y Llywodraeth yn cyhoeddi ei gyllideb terfynol tan 27 Chwefror 2024 a bydd y setliad llywodraeth leol terfynol yn cael ei gyhoeddi yn fuan ar ôl hynny. Mae manylion pellach am y setliad dros dro ar gael yma –

Setliad refeniw a chyfalaf llywodraeth leol: dros dro 2024 i 2025 | LLYW.CYMRU

2.2 Mae ffigyrau swyddogol Llywodraeth Cymru yn y tabl uchod yn dangos yn dybiannol fod Cyngor Gwynedd yn derbyn cynnydd grant o £4.6m erbyn y flwyddyn nesaf (ar ôl addasu'r ffigwr cymharol 2023/24 i adlewyrchu addasiadau yn y sylfaen drethiannol), sy'n gynnydd o 2.0%, tra bod y cyfartaledd ledled Cymru yn 3.1%.

2.3 Mae nifer o ffactorau yn bwydo'r fformiwla dyrannu grant llywodraeth leol, megis poblogaeth y sir, nifer disgyblion yn ein ysgolion, a nifer hawlwyr cymorth incwm. Eleni, bu dipyn mwy o gynnydd yn y niferoedd hyn mewn awdurdodau eraill. Yn benodol, nodir fod effaith Cyfrifiad 2021 – sy'n dangos gostyngiad ym mhoblogaeth Gwynedd, wedi cael effaith sylweddol ar ein dyraniad grant o gymharu â awdurdodau eraill.

2.4 Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r setliad grant terfynol ar gyfer awdurdodau lleol yn fuan ar ôl gosod ei gyllideb terfynol ar 27 Chwefror, gyda dadl perthnasol yn y Senedd bryd hynny. Ar 24 Ionawr, cyhoeddodd Llywodraeth y DU cynnydd o £600m i lywodraeth leol yn Lloegr. Mae'n bosib daw peth arian ychwanegol i gynghorau Cymru fel canlyniad i hyn, ond ni fydd cadarnhad naill ffordd na'r llall tan fydd y setliad terfynol yn cael ei gyhoeddi.

2.5 Os bydd y ffigwr grant yn newid i fyny neu i lawr ar adeg cyhoeddi'r Setliad Terfynol, mor hwyr yng nghylch gosod y gyllideb a treth 2024/25, o bosib byddai'n rhy hwyr i newid ffigyrau'r Dreth Cyngor. Dylid nodi fod y gyllideb yma eisoes yn cynnwys darpariaeth o ddefnydd cronfeydd rhag ofn bydd newid i'r amgylchiadau (e.e. newid i'r setliad, neu chwyddiant).

## 3. GWARIANT REFENIW'R CYNGOR – 2024/25

3.1 Nodir yn y tabl isod y cynnydd mewn gwariant fydd angen er mwyn “sefyll yn llonydd” yn 2024/25.

**Gofynion Gwario Ychwanegol**

| | £ | £ |
|---|---|---|
| Cyllideb Sylfaenol | | 318,073,360 |
| Chwyddiant Cyflogau Staff | 15,113,520 | |
| Pensiwn Athrawon | 2,360,670 | |
| Grant Pensiwn Athrawon | (2,360,670) | |
| Chwyddiant Arall (cyflenwyr) | 6,808,810 | |
| Darpariaeth Chwyddiant Trydan | (2,981,350) | |
| Ardollau (Tân, CNC a CBC) | 342,000 | |
| Demograffi | (37,820) | |
| Bidiau - Pwysau ar Wasanaethau | 5,052,820 | |
| Addasiadau Cyllideb Amrywiol | 375,530 | |
| Cost Benthyca / Llog ar Falansau | (1,250,000) | |
| Addasiad Grantiau Penodol | 382,570 | |
| Darpariaeth Cofid | (1,400,000) | |
| Cyfanswm net yr ychwanegiadau | | 22,406,080 |
| Cyfanswm gofynion gwario 2024/25 cyn arbedion | | 340,479,440 |

3.2 **Cyllideb Sylfaenol 2023/24**

Er mai £318m yw gwariant net 2023/24, mae’n bwysig nodi fod gwir wariant y Cyngor yn £539m, oherwydd ein bod yn derbyn llu o grantiau penodol gwerth £149m ac yn codi incwm cyffredinol o £72m am wasanaethau yr ydym yn eu darparu.

3.3 **Chwyddiant Cyflogau £15.1m**

Daethpwyd i gytundeb ar gyflogau y gweithlu (ar wahân i athrawon) ar gyfer Ebrill 2023 i Mawrth 2024 drwy gytuno cynnydd o £1,925 hyd at pwynt cyflog 43, ac yna 3.88% i bwyntiau cyflog 44 ac uwch. Yn unol â’r mwyafrif o awdurdodau lleol eraill, roeddem wedi cyllidebu’n ddarbodus ar gyfer cynnydd o 6%, ond roedd y cytundeb terfynol yn uwch na’r hyn oedd wedi ei gyllidebu amdano. Canlyniad hyn yw fod y chwyddiant cyflogau yng nghyllideb 2024/25 yn cynnwys elfen i gywiro’r bwlch yma yn ogystal ystyried chwyddiant tybiannol 2024/25.

Mae’r gyllideb yma yn neilltuo amcan gynnydd yng nghytundeb tâl 2024/25 o 5% ar gyfer yr holl weithlu (athrawon o Medi 2024, gweddill y gweithlu o Ebrill 2024).

3.4 **Cyfraniad Cyflogwr Tuag at Pensiwn Athrawon**

Bydd cynnydd yng nghyfraniad y cyflogwr tuag at gynllun pensiwn athrawon gyda chost ychwanegol o £2.36m. Mae'r gyllideb yma wedi ei osod ar y sail y bydd y gost yn cael ei ariannu'n llawn gan y Llywodraeth.

3.5 **Chwyddiant Arall £6.8m**

Mae hwn yn swm 'net' sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer ystod eang o newidiadau yn ddibynnol ar raddfa chwyddiant meysydd penodol. Mae'r prif feysydd lle gwelir cynnydd yn cynnwys:

- Cartrefi Gofal Preswyl Annibynnol £2.8m
- Gofal Di-breswyl £1.3m:
  - Llety Cefnogol £807k,
  - Gofal Cartref £228k,
  - Gwasanaethau eraill £217k
- Ynni (Trydan a Nwy) £1.6m
- Tanwydd (Disel a Petrol) £63k
- Cynnydd prisiau eraill:
  - Yswiriant £270k
  - Trethi eiddo £159k

3.6 **Darpariaeth Chwyddiant Trydan (£3m)**

Roedd tybiaeth wrth baratoi Cyllideb 2023/24 y byddai chwyddiant ar gyllidebau trydan yn sylweddol. Ond gwelwyd nad oedd y chwyddiant cymaint â'r disgwyl, felly modd rhyddhau'r gyllideb yma.

3.7 **Ardollau £342k**

Bydd yr ardollau a delir i'r cyrff perthnasol yn cynyddu fel a ganlyn rhwng 2023/24 a 2024/25:

| | |
|---|---|
| • Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru | £343k |
| • Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | £0 |
| • Cyfoeth Naturiol Cymru (Ardollau Arbennig) | £4k |
| • Cyd-Bwyllgor Corfforedig (CBC) y Gogledd | (£5k) |

Mae'r cynnydd o £343k i ardoll Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cyfateb i 0.39% o gynnydd yn y dreth cyngor.

3.8 **Demograffi (£38k)**

Cyfanswm net sy'n adlewyrchu -£48k oherwydd lleihad net mewn nifer disgyblion yn yr ysgolion a +£10k oherwydd cynnydd mewn plant sy'n derbyn gofal gan yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd.

Mae'r ffigwr net o -£48k i ysgolion yn ganlyniad i sefyllfa wahanol mewn gwahanol sectorau, sef uwchradd +£167k, arbennig +£259k a cynradd -£474k.

3.9 **Bidiau - Pwysau ar Wasanaethau £5.1m**

Mae Atodiad 2 yn cynnwys manylion pob cais unigol am wariant ychwanegol sy'n deillio o bwysau ar y gwasanaethau.

Argymhellir cymeradwyo ceisiadau ("bidiau") gwerth £5.1m am adnoddau parhaol ychwanegol a gyflwynwyd gan adrannau'r Cyngor i gwrdd â phwysau anorfod ar eu gwasanaethau.

Gofynnir i bob adran i adnabod unrhyw wariant rhaid i'r Cyngor gyflawni er mwyn sicrhau parhad gwasanaeth sylfaenol. Nid yw'r drefn yma ar gyfer datblygiadau newydd dymunol, ond yn hytrach ar gyfer parhad gwasanaethau sylfaenol presennol.

Mae elfen o'r ceisiadau yma wrth gwrs yn amlygu ei hun wrth i ni adolygu patrymau gwariant y flwyddyn gyfredol. Mae eraill yn ganlyniad i faterion sy'n codi lle mae angen gwario er mwyn gwarchod deilliannau i'r cyhoedd, neu i gwrdd â gofynion statudol. Mae yna elfen hefyd o lywodraeth ganolog yn creu pwysau a disgwyliadau, ac wedyn y Cyngor gorfod dygymod gyda'r sgil effeithiau.

Mae'r eitemau sydd wedi eu rhestru yn Atodiad 2 wedi cael eu herio'n drylwyr gan y Tîm Arweinyddiaeth cyn eu hargymell i'w cymeradwyo gan y Cabinet. Ymhellach, cyflwynwyd yr holl geisiadau gwariant hyn yn y Seminar Cyllideb a gynhaliwyd ar 16 Ionawr 2024.

3.10 **Ystyriaethau Eraill (£1.9m)**

Cyfanswm sy'n adlewyrchu nifer sylweddol o addasiadau i wahanol gyllidebau ar draws y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys effaith cynnydd mewn derbyniadau llog o (£1.25m) mewn dychweliadau wrth fuddsoddi balansau a llif arian y Cyngor, rhyddhau'r ddarpariaeth o (£1.4m) oedd mewn lle ar gyfer gwariant yn deillio o'r argyfwng Cofid, ond cynnydd cost o £758k oherwydd cyllidebu am leihad grant Gweithlu Gofal a dderbynnir gan y Llywodraeth ynghyd ag ystyriaethau cyllidebol eraill.

## 4. ARBEDION PRESENNOL SYDD WEDI EU CYMERADWYO'N FLAENOROL

**4.1 Mae Cyngor Gwynedd wedi gwireddu dros £39.1m o gynlluniau arbedion ers 2015/16**.

4.2 Ar 14 Chwefror 2023 bu i'r Cabinet gymeradwyo rhaglen o arbedion £6.4m ar gyfer cyllideb 2023/24 ymlaen. Gwelir proffil y rhaglen yma yn Atodiad 3, sy'n dangos fod gwerth £2,848,630 o'r arbedion hyn wedi eu proffilio ar gyfer 2024/25.

4.3 Roedd gwerth £819,500 o arbedion ysgolion wedi cael eu rhaglennu i fod yn weithredol ym mlwyddyn ariannol 2024/25 hefyd.

4.4 Ymhellach i hynny, roedd un cynllun arbedion gwerth £15,000 sydd yn deillio o raglenni blaenorol o arbedion sydd yn berthnasol i 2024/25.

4.5 Mae gwerth yr arbedion hyn fesul adran wedi'u crynhoi yn y tabl canlynol.

| **Arbedion sydd eisoes wedi eu rhaglennu i leihau bwlch Cyllideb 2024/25** | |
|---|---|
| | £ |
| Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant | 1,193,040 |
| Ysgolion | 819,500 |
| Adran Amgylchedd | 562,870 |
| Adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC | 390,000 |
| Adran Cyllid a Technoleg Gwybodaeth | 207,720 |
| Adran Plant a Theuluoedd | 157,960 |
| Adran Tai ac Eiddo | 128,840 |
| Adran Addysg | 111,880 |
| Adran Economi a Chymuned | 65,660 |
| Adran Cefnogaeth Gorfforaethol | 45,660 |
| **Is-Gyfanswm** | **3,683,130** |
| Llai: Darpariaeth | (569,730) |
| **Arbedion Cynlluniedig Presennol 2024/25** | **3,113,400** |

## 5. BWLCH ARIANNU 2024/25 A'R DRETH CYNGOR

5.1 Fe welir o Rhan 3 uchod fod anghenion gwario'r Cyngor (cyn tynnu arbedion) ar gyfer 2024/25 yn £340.5m. Nodwyd yn rhan 2 fod y grant oddi wrth Lywodraeth Cymru am fod yn £232.1m.

5.2 Fel eglurwyd yn rhan 4 uchod, mae cyfanswm o £3,113,400 o arbedion sydd eisoes wedi eu cymeradwyo i'w ddefnyddio i leihau'r bwlch ariannu.

| Sefydlu Cyllideb 2024/25 | |
|---|---|
| | £ |
| Cyllideb Sylfaenol 2023/24 | 318,073,360 |
| Gofynion Gwario Ychwanegol | 22,406,080 |
| Gofynion Gwario 2024/25 cyn Arbedion | 340,479,440 |
| llai Incwm Grant Refeniw Llywodraeth Cymru | (232,092,110) |
| Bwlch i'w lenwi gan Dreth Cyngor ac arbedion pellach | 108,387,330 |

5.3 Golyga hynny fod bwlch gweddilliol o £108.4m sydd angen ei lenwi. Mae adroddiad ar wahân ar raglen cyfarfod y Cabinet sy'n argymell gweithredu cynlluniau arbed newydd o £4.78m (wedi ei addasu i gynnwys risg arbedion). Fodd bynnag, dim ond £1.82m (wedi ei addasu i gynnwys risg arbedion) gellir ei dynnu o gyllideb 2024/25 gyda'r gweddill i'w dynnu o gyllidebau 2025/26 a 2026/27. Bydd rhaid pontio o gronfeydd gwerth £2.96m o'r arbedion sydd wedi eu proffilio i'r blynyddoedd dilynol wrth osod cyllideb 2024/25.

5.4 Yn ychwanegol, awgrymir oedi cyn penderfynu ar arbedion/toriadau pellach gwerth £2m, gan eto ddefnyddio cronfeydd i bontio'r diffyg. O ystyried y £3.11m o arbedion sydd eisoes wedi eu cymeradwyo ar gyfer 2024/25 yn flaenorol (gweler Rhan 4 uchod), argymhellir fod cyfanswm o £4.93m o arbedion a £4.96m o gronfeydd yn cyfrannu i lenwi'r bwlch ariannol.

| | |
|---|---|
| Bwlch i'w lenwi gan Dreth Cyngor ac Arbedion | 108,387,330 |
| Llai Arbedion presennol eisoes wedi eu cymeradwyo | (3,113,400) |
| Llai Arbedion newydd | (1,816,360) |
| Llai pontio arbedion newydd o gronfeydd | (2,959,640) |
| Llai oedi Arbedion o gronfeydd | (2,000,000) |
| Bwlch gweddillol o'r Dreth Cyngor | 98,497,930 |

5.5 Ceir mwy o wybodaeth am yr arbedion yn Atodiad 3.

5.6 Argymhellir cyfarch gweddill y bwlch drwy'r Dreth Cyngor. Byddai cynyddu'r Dreth ar anheddau unigol o 9.54% yn cynhyrchu £98,497,930 o incwm, a byddai hyn y ddigonol i lenwi'r bwlch.

5.7 Bydd hyn yn £8.6m o incwm Treth Cyngor ychwanegol o'i gymharu â chyllideb 2023/24. Mae hynny'n gyfystyr i gynnydd yn y Dreth Cyngor o £152.89 i eiddo mewn Band D, neu £2.94 yr wythnos. Bydd y dreth a godir gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd (cynnydd o 4.97% ar gyfer 2024/25) a'r cynghorau cymuned (% amrywiol) yn ychwanegol i hyn wrth gwrs.

5.8 Mae gwybodaeth gefndirol a'r cyd-destun ar gyfer gosod lefel y Dreth wedi'i gyflwyno yn Atodiad 6.

5.9 Pe bai aelodau'r Cyngor awydd cynnydd llai na 9.54% yn lefel y Dreth, yna byddai rhaid ymrwymo llai o adnoddau parhaol i ymdrin â'r pwysau ar wasanaethau, darganfod mwy o arbedion a thoriadau, neu gyfuniad o'r ddau.

5.10 Mae'r dewis rhwng cynnal gwasanaethau a lefel rhesymol o drethiant o hyd yn un anodd. Ar gyfer 2024/25 disgwylir bydd y cynnig gerbron i godi'r dreth 9.54% er mwyn diwallu'r pwysau ar wasanaethau tra'n gosod cyllideb gytbwys yn lefel tebyg i fwyafrif yr awdurdodau yng ngogledd Cymru.

## 6. CASGLIADAU / CYLLIDEB 2024/25

6.1 Mae'r adroddiad yma a'r atodiadau yn gosod allan y ffactorau y dylid eu hystyried wrth sefydlu cyllideb 2024/25 a bydd rhaid parhau i gynaeafu arbedion hanesyddol, cyflwyno arbedion newydd, a chodi lefel y dreth er mwyn gosod cyllideb gytbwys.

6.2 Argymhellir cyfarch angen gwario refeniw o £340.5m, wedi ychwanegu £22.4m, sy'n cynnwys darparu £5.1m er mwyn cyfarch y galw am wasanaethau.

6.3 Ar ôl derbyn grant gan Lywodraeth Cymru o £232.1m, dibynnu ar £4.93m o arbedion (£3.11m o arbedion hanesyddol sydd eisoes wedi eu rhaglennu a £1.82m o arbedion newydd), a £4.96m o gronfeydd. Bydd angen i lefel y Dreth Cyngor gynyddu 9.54% i gynhyrchu £98m o incwm er mwyn cau bwlch ariannu 2024/25.

**Cyllideb gytbwys ar gyfer 2024/25**

| | £ |
|---|---|
| Gofynion Gwario 2024/25 cyn Arbedion | 340,479,440 |
| Cyfanswm Arbedion 2024/25 | (4,929,760) |
| Cyfanswm Pontio o Gronfeydd 2024/25 | (4,959,640) |
| Cyllideb 2024/25 | 330,590,040 |
| | |
| **I'w ariannu drwy -** | |
| Incwm Grant | 232,092,110 |
| Treth Cyngor (cynnyrch ar ôl codi 9.54%) | 98,497,930 |
| Cyllideb 2024/25 | 330,590,040 |

6.4 Bydd hyn yn golygu gosod cyllideb net o **£330,590,040**. Rhoddir ddadansoddiad o'r gyllideb fesul gwasanaeth yn Atodiad 1.

## 7. CYFALAF

7.1 Sefydlwyd strategaeth asedau 2019/20 – 2028/29 gan y Cyngor llawn ar 7 Mawrth 2019. Mae'r strategaeth asedau newydd yn weithredol am y cyfnod 2019/20 hyd at 2028/29. Fe'i ymgorfforir fel rhan o'r Rhaglen Gyfalaf, ac rydym yn ychwanegu at hwnnw erbyn 2024/25. Ceir manylion y rhaglen gyfalaf bresennol yn Atodiad 4.

7.2 Mae'r ddau dabl a welir yn Atodiad 4 yn adlewyrchu'r gofynion cyfalaf, ynghyd â'r ariannu, ar gyfer gosod cyllideb cyfalaf 2024/25 i 2026/27, er mwyn sefydlu rhaglen gyfan gwerth £85,224,800 yn 2024/25, i'w ariannu o'r ffynonellau sydd wedi'u dadansoddi yn Atodiad 4.

7.3 Yn y tabl yn Atodiad 4 nodir bod £500k ar gael yn flynyddol ar gyfer cyllido bidiau cyfalaf. Ar gyfer 2024/25, mae £428k o'r gyllideb yma wedi ei glustnodi ar gyfer y 9 bid cyfalaf perthnasol a fanylir yn Atodiad 2b.

## 8. STRATEGAETH TYMOR HIRACH

8.1 Wrth gyhoeddi setliad drafft 2024/25 yn Rhagfyr 2023, nid yw Llywodraeth Cymru wedi rhoi arwydd o'r cynnydd mewn grant fydd yn cael ei dalu i awdurdodau lleol Cymru o 2025/26. Fodd bynnag, nid yw'r rhagolygon yn gadarnhaol, a disgwylir i Cyngor Gwynedd, fel pob cyngor arall dderbyn cynnydd sydd yn is na chwyddiant yn y dyfodol – ac efallai dim cynnydd o gwbl.

8.2 Wrth ystyried y galw cynyddol am wasanaethau sydd ar y Cyngor, yn wyneb darpariaeth sy'n crebachu yn sgil toriadau, bydd angen ystyriaeth sylfaenol, buan am yr hyn y gall y Cyngor ei ddarparu a sut. Fel gwelir yn Atodiad 3, mae cynlluniau arbed pellach wedi eu rhaglennu ar gyfer 2025/26 a thu hwnt ond bydd gwaith yn cychwyn yn syth ar ôl gosod y gyllideb ar gyfer 2024/25 ar ddiweddaru Cynllun Ariannol Tymor Canolig sy'n cydnabod y sefyllfa fel y'i rhagwelir.

## 9. YSTYRIAETHAU ERAILL AC AMRYWIOL ASESIADAU

9.1 Mae'r lefel gyfredol o falansau cyffredinol y Cyngor yn £7.9m. O ystyried y pwysau cynyddol a ddisgwylir ar gyllidebau'r Cyngor dros y blynyddoedd nesaf, ystyrir bydd lefel y balansau hyn yn briodol i'w gadw ar gyfer llif arian ymarferol a gwariant annisgwyl. Cyflwynir gwybodaeth am y balansau a chronfeydd wrth gefn yn Atodiad 7.

9.2 Mae Atodiad 5, 'Ymdrin â'r Gyllideb Ysgolion yn 2024/25', yn egluro sefyllfa cyllideb ysgolion Gwynedd.

9.3 Wrth benderfynu ar gyllideb, rhaid i'r Cabinet a'r Cyngor ystyried effaith eu penderfyniadau o safbwynt cydraddoldeb yn unol â'r dyletswyddau statudol sydd ar y Cyngor drwy Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae Atodiad 8 yn ymdrin yn benodol â'r ddyletswydd, gan gynnwys sylwadau'r swyddog cyllid statudol ar y Gyllideb cyfan o safbwynt cydraddoldeb. Mae'r asesiad yn cadarnhau fod effaith cyffredinol bositif o barhad y gwasanaethau ystyriwyd yn flaenoriaeth i'w hamddiffyn a'u ariannu i'r lefel galw ychwanegol, ac ni chredir y bydd unrhyw effeithiau negyddol yn sylweddol.

9.4 Mae'r Cyngor yn cydymffurfio â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac mae'r argymhellion yn yr adroddiad yn seiliedig ac wedi eu datblygu yn unol â'r ddyletswydd statudol sydd ar y Cyngor dan Adran 3 i ymgymryd â datblygiad cynaliadwy yn ei holl weithgareddau. Yn unol â'r drefn arferol, rhoddir gwybodaeth fanylach am y Ddeddf Llesiant a chasgliadau perthnasol yn Atodiad 9.

9.5 Mae rhaid i'r swyddog cyllid statudol fynegi barn am gadernid yr amcangyfrifon. Cyflwynir asesiad o risgiau a chadarnhad priodol yn Atodiad 10.

---

**Barn yr aelod lleol**
Dim yn fater lleol

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Swyddog Monitro:**
Er mai mater i'r Cyngor llawn ydi penderfynu yn derfynol ar y gyllideb mae'n bwysig fod y Cabinet yn rhoi argymhelliad clir iddo ynglŷn â'i gynlluniau gwario a'r gyllideb ddrafft ac mae'r adroddiad hwn yn cyflawni hynny. Unwaith y bydd y Cyngor wedi cytuno ar y ffynonellau cyllido, yna y Cabinet fydd yn gyfrifol am y gwariant a'r blaenoriaethu oddi fewn i'r gyllideb honno.

**Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys. Wedi ystyried yr holl risgiau amlinellir yn Atodiad 10 i'r adroddiad, a'r camau lliniaru, rwyf o'r farn fod Cyllideb y Cyngor am 2024/25 yn gadarn, yn ddigonol, ac yn gyraeddadwy.

**ATODIADAU**

| | |
|---|---|
| 1 | Cyllidebau Arfaethedig |
| 2 | Crynodeb Bidiau |
| 2a | Bidiau Refeniw Parhaol |
| 2b | Bidiau Cyfalaf |
| 3 | Arbedion |
| 4 | Cyfalaf |
| 5 | Ymdrin â'r Gyllideb Ysgolion yn 2024/25 |
| 6 | Treth Cyngor |
| 7 | Balansau |
| 8 | Asesu'r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol |
| 9 | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 |
| 10 | Cadernid yr Amcangyfrifon |